Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant Sylweddol

## Ysgol Gymraeg Ffwrnes
## Rhodfa Denham
## Llanelli
## SA15 4DD

## Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2021

## gan

## Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gymraeg Ffwrnes wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o unrhyw weithgarwch dilynol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella safonau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn enwedig y disgyblion mwy abl

Erbyn hyn, mae gan yr arweinwyr weledigaeth gadarn ar gyfer gwella safonau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws yr ysgol. Maent wedi datblygu cynllun llythrennedd cynhwysfawr sydd yn rhoi arweiniad clir i athrawon. Mae'r cynllun yn cynorthwyo athrawon i sicrhau dilyniant ym medrau disgyblion wrth iddynt ddatblygu dealltwriaeth o eirfa allweddol, ffurf a chystrawen brawddegau, cyn symud ymlaen i ysgrifennu'n annibynnol. O fewn cynllunio'r athrawon, maent yn ailymweld ag ystod eang o wahanol fathau o ysgrifennu yn rheolaidd, er mwyn adeiladu ar fedrau blaenorol y disgyblion yn effeithiol.

Trwy eu themâu tymhorol, mae'r athrawon yn defnyddio'r cynllun llythrennedd i amlygu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn gweithgareddau sydd yn ennyn eu diddordeb. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2, mae disgyblion yn ysgrifennu gorchmynion cadw'n ddiogel ar noson tân gwyllt ac, ym Mlwyddyn 6, fel rhan o thema'r Ail Ryfel Byd, yn ysgrifennu barddoniaeth am y Blits. O ganlyniad i hyn, mae safonau rhan fwyaf y disgyblion wedi gwella dros amser. Mae dealltwriaeth y disgyblion o briodweddau gwahanol ddulliau o ysgrifennu wedi dyfnhau ac maent yn cyflwyno eu gwaith mewn modd pwrpasol i ystod gynyddol o gynulleidfaoedd. Yn ogystal, mae disgyblion mwy abl a thalentog yn cyflwyno gwaith o safon uchel ar draws y cwricwlwm.

### A2. Sicrhau cysondeb wrth ymateb i waith disgyblion fel bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u medau

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi diwygio a mireinio ei pholisi adborth sydd nawr yn cael ei weithredu'n gyson ar draws yr ysgol. Erbyn hyn, mae bron pob un o'r staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol ar sut i gynnig adborth buddiol i ddisgyblion, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Maent wedi sefydlu strategaeth ysgol gyfan gadarn. Golyga hyn fod athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio cwestiynau effeithiol i ymestyn ymatebion disgyblion ac i atgyfnerthu eu dealltwriaeth, yn ogystal â datblygu eu medrau meddwl. O ganlyniad, mae disgyblion yn fwy parod i feddwl a chynnig syniadau a chywiro'u gwaith eu hunain yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i'r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn dewis un o gymeriadau 'Mêts y Môr' sy'n adlewyrchu pa mor dda maent yn teimlo eu bod wedi cyflawni tasg neu weithgaredd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r defnydd o fframwaith hunanasesu yn caniatáu i ddisgyblion werthuso a gwella eu gwaith eu hunain. Yn gyffredinol, mae ansawdd adborth ysgrifenedig athrawon yn effeithiol ac

yn cyfeirio disgyblion at yr hyn sy'n dda a beth sydd angen ei wella. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymateb yn llwyddiannus i'r argymhellion a'r adborth. Mae hyn yn cael effaith gadarn ar eu medrau ysgrifennu.

**A3. Sicrhau bod yr addysgu yn cynnig her gyson a chadarn er mwyn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion**

Mae athrawon wedi addasu eu ffocws i sicrhau bod gwaith yn gosod her bwrpasol i ddisgyblion. Mae eu cynlluniau wythnosol yn adeiladu ar ddysgu blaenorol y disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynllunio tasgau cyfoethog sydd yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn gosod lefel o her briodol ar gyfer ystod wahanol o alluoedd yn y dosbarth.

Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn darparu tasgau o fewn yr ardaloedd dysgu sy'n ymateb yn llwyddiannus i anghenion a diddordebau'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn ymateb i'r profiadau dysgu yn hyderus ac yn lled annibynnol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn datblygu eu medrau cyfri ac amcangyfrif yn llwyddiannus trwy gydbwyso sachau bach â phwysau safonol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn darparu heriau ychwanegol ar gyfer disgyblion sy'n cwblhau eu gwaith yn llwyddiannus. Yn yr arfer orau, mae oedolion yn defnyddio cwestiynau agored yn effeithiol er mwyn ymestyn a datblygu dealltwriaeth disgyblion. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, mae athrawon yn annog disgyblion i feddwl am ffyrdd gwahanol o ddarganfod arwynebedd siapiau cyfansawdd. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn cael eu herio'n rheolaidd er mwyn datblygu eu medrau meddwl, datrys problemau ac ymestyn eu hymatebion.

Mae arweinwyr wedi sicrhau bod pob athro wedi mynychu hyfforddiant ar ddatblygu strategaethau i ymestyn disgyblion hyd eithaf eu gallu. Mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol hyn wedi sicrhau bod gan yr athrawon ddealltwriaeth gytûn o sut i herio disgyblion yn gyson i fodloni eu hanghenion addysgol. Golyga hyn fod athrawon yn cynnwys lefelau o her briodol wrth gynllunio profiadau dysgu ysgogol, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn cael eu hymestyn yn rheolaidd mewn sefyllfa dosbarth, wrth weithio mewn grŵp neu'n annibynnol.

**A4. Cryfhau prosesau hunanarfarnu'r ysgol fel bod arweinwyr yn adnabod yn well y meysydd sydd angen eu gwella ac yn monitro effaith eu gweithgareddau gwella yn drwyadl**

Erbyn hyn, mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso cadarn sy'n sicrhau bod bron pob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol yn cael sylw. Mae rhaglen fonitro ffurfiol yn cynnwys ystod o weithgareddau pwrpasol sy'n ystyried barn disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr yn effeithiol. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi ymateb yn brydlon i ganfyddiadau'r holiaduron i wella'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth addasu dulliau dysgu o bell i ddiwallu anghenion disgyblion ac i hwyluso'r trefniadau i rieni a gofalwyr yn ystod y cyfnodau clo Covid-19. Mae arweinwyr, gan gynnwys aelodau'r corff llywodraethol, yn defnyddio ystod dda o weithdrefnau monitro uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys craffu ar lyfrau disgyblion, arsylwi ar yr addysgu, dehongli data, craffu ar gynllunio athrawon yn ogystal â sgwrsio â disgyblion am eu gwaith.

Erbyn hyn, mae adroddiadau monitro arweinwyr yn fwy arfarnol. Maent yn adlewyrchiad teg a gonest o'r ddarpariaeth a safonau ar draws yr ysgol, sy'n cefnogi

dealltwriaeth staff a llywodraethwyr o'r hyn sy'n dda a beth sydd angen ei wella. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn darparu adborth buddiol o ganfyddiadau'r prosesau monitro i staff a llywodraethwyr yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr wybodaeth angenrheidiol i gefnogi'r ysgol ac i fonitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun ôl-arolygiad.

Er bod cyfnodau clo Covid-19 wedi cyfyngu ar y cyfleoedd i fonitro'n uniongyrchol, mae'r arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, wedi parhau i werthuso agweddau pwysig yn rhithiol. Er enghraifft, maent wedi craffu ar ansawdd y ddarpariaeth dysgu o bell er mwyn adnabod yr hyn oedd yn dda a beth roedd angen ei wella. Mae arweinwyr wedi creu cynllun gwella ysgol pwrpasol sy'n cynnwys argymhellion yr arolygiad craidd yn ogystal â blaenoriaethau eraill. Mae arweinwyr a'r staff wedi gweithio'n ddyfal tuag at y camau gweithredu, gan nodi'n glir yr hyn sydd wedi ei gyflawni a beth yw'r camau nesaf. O ganlyniad i'r holl weithdrefnau hunanwerthuso cadarn sydd nawr yn bodoli, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn erbyn pob un o argymhellion yr arolygiad craidd.

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**